BREUDDWYD

Mi ddihunais noswaith o'r blaen
Yn crynu yn fy ngwal
Ofn gweld beth oedd 'ond hen
Ysgrifen ar y wal
Tynnais y dillad
Yn din dros fy mhen
Breuddwyd fel aderyn wrth ffenest fach y byd.

Mae strydoedd gwlad fach werdd
Yn rhedeg nawr yn goch
Ni weli'r deigryn fyth
Fel perl ar foch y moch
Cyfadde wnaeth y tyst
Mae geiriau laddodd Duw
Breuddwyd fel aderyn wrth ffenest fach y byd.

Fe welwyd rhyddid
Yn rhedeg at y ffin
Clywais ei lais yn gwaeddi
Ef oedd yr un
A fu yn dawnsio
Ar fedd yr oes a fu
Breuddwyd fel aderyn wrth ffenest fach y byd.

©Geraint Griffiths